



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2017 Rhif 81 (Cy. 30)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Gorchymyn Sŵn o Larymau
Tresmaswyr Clywadwy (Cymru)
(Dirymu) a Rheoli Sŵn (Codau
Ymarfer ar gyfer Safleoedd
Adeiladu a Safleoedd Agored)
(Cymru) 2017

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

O dan adrannau 71 a 104(1) o Ddeddf Rheoli Llygred 1974, caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo codau ymarfer at ddiben rhoi cyfarwyddyd ar ddulliau priodol o leihau sŵn (gan gynnwys dirgryniad) a rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo cod ymarfer o'r fath ar gyfer cyflawni mathau o waith y mae adran 60 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith adeiladu a gwaith ffyrdd, gwaith dymchwel, gwaith carthu a mathau eraill o waith adeiladu peirianyddol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cymeradwyo'r ddwy ran o god ymarfer y Sefydliad Safonau Prydeinig ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored. Diffinnir safleoedd agored yn y cod fel safleoedd lle y mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn yr awyr agored sy'n ymwneud â chloddio, lefelu neu ddodi deunydd.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dirymu Gorchymyn Rheoli Sŵn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/1795 (Cy. 170)) a Gorchymyn Rheoli Sŵn (Cod Ymarfer ar Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywadwy) 1981 (O.S. 1981/1829).

2017 No. 81 (W. 30)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Noise from Audible Intruder Alarms (Wales) (Revocation) and Control of Noise (Codes of Practice for Construction and Open Sites) (Wales) Order 2017

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Under sections 71 and 104(1) of the Control of Pollution Act 1974, the Welsh Ministers may approve codes of practice for the purpose of giving guidance on appropriate methods for minimising noise (which includes vibration) and the Welsh Ministers must approve such a code of practice for the carrying out of works to which section 60 of the Act applies. These works include building and roadworks, demolition, dredging and other works of engineering construction.

This Order approves the two parts of the British Standards Institution code of practice for noise and vibration control on construction and open sites. Open sites are defined in the code as sites where there is significant outdoor excavation, levelling or deposition of material.

This Order also revokes the Control of Noise (Codes of Practice for Construction and Open Sites) (Wales) Order 2002 (S.I. 2002/1795 (W. 170)) and the Control of Noise (Code of Practice on Noise from Audible Intruder Alarms) Order 1981 (S.I. 1981/1829).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Gellir cael y codau ymarfer sydd wedi eu cymeradwyo yn bersonol neu drwy'r post oddi wrth y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) yn: Customer Services Sales Department, BSI, 389 Chiswick High Road, Llundain W4 4AL; ffôn 020 8996 7000.

Dyma rifau ISBN y codau ymarfer sydd wedi eu cymeradwyo:

BS 5228-1:2009	ISBN 978 0 580 77749 3
BS 5228-2:2009	ISBN 978 0 580 77750 9

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of regulatory impact assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

The approved codes of practice can be obtained in person or by post from the British Standards Institution at the Customer Services Sales Department, BSI, 389 Chiswick High Road, London W4 4AL; telephone 020 8996 7000.

The ISBN numbers for the approved codes of practice are as follows:

BS 5228-1:2009	ISBN 978 0 580 77749 3
BS 5228-2:2009	ISBN 978 0 580 77750 9

2017 Rhif 81 (Cy. 30)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Gorchymyn Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywadwy (Cymru) (Dirymu) a Rheoli Sŵn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2017

Gwnaed 24 Ionawr 2017
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru 2 Chwefror 2017
Yn dod i rym 24 Chwefror 2017

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwersau a roddir gan adrannau 71 a 104(1) o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974(**1**) ac sydd wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwysedd

- 1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywadwy (Cymru) (Dirymu) a Rheoli Sŵn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Chwefror 2017.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru

2017 No. 81 (W. 30)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Noise from Audible Intruder Alarms (Wales) (Revocation) and Control of Noise (Codes of Practice for Construction and Open Sites) (Wales) Order 2017

Made 24 January 2017
Laid before the National Assembly for Wales 2 February 2017
Coming into force 24 February 2017

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 71 and 104(1) of the Control of Pollution Act 1974(1) and vested in the Welsh Ministers(2), make the following Order:

Title, commencement and application

- 1.—(1) The title of this Order is the Noise from Audible Intruder Alarms (Wales) (Revocation) and Control of Noise (Codes of Practice for Construction and Open Sites) (Wales) Order 2017.

(2) This Order comes into force on 24 February 2017.

(3) This Order applies in relation to Wales.

(1) 1974 p. 40.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddausr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo ac wedi hymnyn i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30(1)a 30(2)(a) o Atodlen 11 iddi.

(1) 1974 c. 40.

(2) The functions of the Secretary of State in so far as exercisable in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales under article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and thereafter to the Welsh Ministers under section 162 of, and paragraphs 30(1) and 30(2)(a) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Cymeradwyo cod ymarfer

2. Mae'r rhannau a ganlyn o god ymarfer y Sefydliad Safonau Prydeinig ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored, sy'n dwyn y rhif BS 5228, wedi eu cymeradwyo at ddiben rhoi cyfarwyddyd ar ddulliau priodol o leihau sŵn o'r safleoedd hynny—

- (a) Rhan 1: Sŵn, sy'n dwyn y rhif BS 5228-1:2009, fel y'i diwygiwyd gan Ddiwygiad Rhif 1, a ddaeth i rym ar 21 Chwefror 2014;
- (b) Rhan 2: Dirgryniad, sy'n dwyn y rhif BS 5228-2:2009, fel y'i diwygiwyd gan Ddiwygiad Rhif 1, a ddaeth i rym ar 3 Mehefin 2014.

Dirymu

3. Mae'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu o ran Cymru—

- (a) Gorchymyn Rheoli Sŵn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002(1); a
- (b) Gorchymyn Rheoli Sŵn (Cod Ymarfer ar Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywadwy) 1981(2).

Approval of code of practice

2. The following parts of the British Standards Institution code of practice for noise and vibration control on construction and open sites, numbered BS 5228, are approved for the purpose of giving guidance on appropriate methods for minimising noise from those sites—

- (a) Part 1: Noise, numbered BS 5228-1:2009, as amended by Amendment No. 1, which came into effect on 21 February 2014;
- (b) Part 2: Vibration, numbered BS 5228-2:2009, as amended by Amendment No. 1, which came into effect on 3 June 2014.

Revocation

3. The following Orders are revoked in relation to Wales—

- (a) The Control of Noise (Codes of Practice for Construction and Open Sites) (Wales) Order 2002(1); and
- (b) The Control of Noise (Code of Practice on Noise from Audible Intruder Alarms) Order 1981(2).

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
24 Ionawr 2017

Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs,
one of the Welsh Ministers
24 January 2017

(1) O.S. 2002/1795 (Cy. 170).
(2) O.S. 1981/1829.

(1) S.I. 2002/1795 (W. 170).
(2) S.I. 1981/1829.

© Hawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2017


Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.25

W2017013110 02/2017 19585

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/0081>

ISBN 978-0-348-20064-5



9 780348 200645